Disclosure & Barring Service

# Y Gwasanaeth Diweddaru

## Arbedwch arian, ymunwch nawr

---

- Ymgeisiwch ar-lein, mae'n gyflym a rhwydd
- Does dim angen ailymgeisio os ydych chi angen gwiriadau lluosog o fewn yr un gweithlu, os oes angen yr un lefel a matho wiriad
- Cadwch eich tystysgrif yn gyfredol am ddim ond £16 y flwyddyn
- Am ddim i wirfoddolwyr
- Gallwch hyd yn oed adnewyddu'n flynyddol

---

## Peidiwch â cholli cyfle

- Ymunwch ar y cyfle cyntaf – gofrestrwch wrth i chi ymgeisio ar gyfer eich gwiriad DBS
- Os byddwch yn aros nes i chi dderbyn eich tystysgrif, bydd gennych 30 diwrnod calendr o ddyddiad ei chyhoeddi

---

## Dyma sut

- Nodwch rif eich ffurflen gais, mae hwn ar gael yng nghornel dde uchaf y ffurflen: | | | | | | | | | | | |
- Defnyddiwch rif y ffurflen gais i ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru ar **www.gov.uk/dbs-update-service**
- Wrth i chi gofrestru, nodwch eich Rhif Adnabod Gwasanaeth Diweddaru a'i gadw'n ddiogel: **C** | | | | | | | | | | |
- Gallwch hefyd ddefnyddio'ch rhif ffurflen gais i olrhain cynnydd eich cais am wiriad DBS ar **www.gov.uk/dbs**

# Gwybodaeth bwysig

## Cyn ateb cwestiwn e55 ar y ffurflen gais DBS, dilynwch y camau syml hyn

### A ydych wedi rhoi ateb cadarnhaol i gwestiwn e55?

Os oes gennych euogfarnau troseddol, darllenwch y canllaw hidlo euogfarnau troseddol ar **www.gov.uk/government/collections/dbs-filtering-guidance** cyn ateb cwestiwn e55

Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall beth mae e55 yn ofyn a'ch bod yn siŵr o sut i ateb y cwestiwn

Gwnewch yn siŵr nad ydych yn rhannu gwybodaeth am eich gwybodaeth droseddol nad oes rhaid i chi ei rhannu

Gwiriwch y rhestr o droseddau fydd yn cael eu hidlo fel eich bod yn gwybod p’un a ddylech ddatgelu’ch gwybodaeth droseddol neu beidio

### Pam ei bod yn bwysig darllen y canllaw hwn?

Ar 29 Mai 2013, daeth deddfwriaeth i rym sy’n caniatáu i nifer o hen gollfarnau a mân euogfarnau beidio bod yn destun datgeliad bellach – mae angen i chi ddeall sut mae hyn yn effeithio arnoch chi ac a oes angen i chi ddatgelu’ch gwybodaeth droseddol.

Bydd rhai hen a mân gollfarnau yn cael eu hidlo allan ac ni fyddant bellach yn cael eu datgelu ar dystysgrif.

Bydd pob rhybudd a chollfarn am droseddau treisgar a rhywiol difrifol penodedig, a throseddau penodedig eraill yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion bregus, yn dal yn amodol i ddatgeliad.

I fod yn siŵr o sut fydd hyn yn effeithio arnoch chi, gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen canllaw hidlo’r DBS cyn ateb cwestiwn e55 ar y ffurflen gais.

Ewch i’n gwefan ar **www.gov.uk/dbs** a chwilio am ein canllaw hidlo.